# Cyngor Cymuned Llanycil

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mai 16eg 2023 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Huw Charles (cadeirydd), Euros Puw, Gwynfryn Williams, Geraint Jones, Arwel Davies, Rhys Jones, Jean Roberts, Catrin Roberts, Cyng.Elwyn Edwards a'r clerc.

Croesawyd Catrin Roberts i'w chyfarfod cyntaf.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mawrth a chafwyd yn gywir.**

**ii) Datgan Buddiant.**
Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

**iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.
i) Cafwyd cadarnhad fod y ffosydd yn ardal Arenig wedi cael eu glanhau.
ii) Roedd ein cais i glirio sbwriel ar hyd ochr yr A494 o Lanycil i Wern Goch wedi cael ei anfon ymlaen i'r Uned Waith.

**iv) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd.
i) Holiadur Perfformiad Cyngor Gwynedd – cyfle i ddweud eich dweud. Gofynnwyd i'r clerc i'w gwblhau.

b) Parc Cenedlaethol.
i) Adroddiad adolygu draft Cynllun Datblygu Lleol Eryri.
ii) Cronfa Cymunedau Eryri (CCE) 2023-24 – cytunwyd i'w ddosbarthu i'r pwyllgorau lleol.
iii) Gweminar Aelodau Cynghorau Cymuned - Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol, 8/6/23.

c) Cwmni Pum Plwy Penllyn.
i) Cafwyd diweddariad ar weithgareddau'r Cwmni. Trafodwyd cais yr Heddlu i osod camera cylch cyfyng wrth yr Orsaf Dan i arsylwi traffig yn mynd i mewn ac allan o'r dre. Cytunwyd yn unfrydol fod hyn yn syniad da, yn enwedig ar ol yr achosion o ladrata yn ddiweddar. Cytunwyd i gyfrannu arian tuag at y cynllun os byddai angen.

**v) Ceisiadau Cynllunio.**
a) Derbyniwyd y cais cynllunio canlynol ac nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiad lleol:-
NP5/72/1D – Gosod pwmp gwres ffynhonnell aer allanol ar ochr yr annedd. Fron Feuno, Llanycil.

**vi) Materion Ariannol**
a) Derbyniadau.
Rhandal cyntaf y Praesept - £2,250.

b) The Pension Regulator
Cafwyd cadarnhad gan y clerc fod y camau ail gofrestru priodol wedi cael ei gwblhau.

c) Archwiliad Blynyddol & canllawiau statudol cyhoeddi cyfrifon ariannol 2022-23.
Roedd Cyngor Gwynedd wedi archwilio'r cyfrifon a chafwyd cadarnhad i sicrwydd yn nhrefniadau llywodraethu a datganiadau cyfrifyddu'r cyngor. Cytunwyd yn unol â gofynion y datganiadau Cyfrifyddu a Llywodraethu yn y ffurflen Archwiliad Blynyddol. Oherwydd pwysau gwaith nid oedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi cyhoeddi'r hysbysiad archwilio ar hyn o bryd.



Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….

ch) Taliadau.
i) Zuirch (yswiriant).
ii) Archwilio Cymru (archwilio cyfrifon 2021/22).

Cymeradwywyd taliad yr yswiriant ond cytunwyd i beidio talu Swyddfa Archwilio Cymru tan oedd cadarnhad fod y swm a godwyd yn gywir.

**vii) Unrhyw Fater Arall.**

a) Gofynnwyd i'r clerc basio'r mater canlynol ymlaen:-
i) Gwteri a ffosydd angen eu hagor o Cyffdy lawr i bentref Parc.
2) Ffos Ty'n Bryn, Rhyduchaf – cais i orffen gosod peipen a chau ffos agored fel y gwnaed ar ran ohonni llynedd.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Gorffennaf 11eg am 8.00 y.h. yn Neuadd Maesywaen.**



Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….